WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

17 Mawrth 2010
www.wao.gov.uk

# Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Paul Dimblebee, Ian Hughes a Mike Usher

**Gillian Body**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ef sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon y Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwella statudol. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu gweler y wefan http://www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2010

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Mawrth 2010**

80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


Mae Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig 5

Mae trydydd parti wedi codi pryderon am drefniadau llywodraethu PMCF 6

Canfu ymchwiliad y timau archwilio ddiffyg prosesau llywodraethu a rheoli ariannol sylfaenol yn PMCF 6

Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau sydyn i fynd i'r afael â gwendidau llywodraethu PMCF cyn gynted ag y cwblhawyd yr archwiliad interim 7

Nid aethpwyd i'r afael â'r methiannau yn PMCF ers nifer o flynyddoedd 7

Dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi monitro trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn fwy effeithiol 8

Dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi ymateb yn fwy effeithiol i bryderon am PMCF y cyflwynwyd iddo gan drydydd partïon 9

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau i leihau'r risg y bydd y problemau difrifol yn PMCF yn cael eu hailadrodd ac y byddant yn parhau heb eu canfod mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill 11

Atodiad 1 – Adroddiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad 13

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymchwiliad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad i honiadau a wnaed yn erbyn Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc (PMCF). Cafodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gymorth gan archwilydd ariannol profiadol o Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol ei ymchwiliad.

2 Mae adroddiad manwl y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn **Atodiad 1**. Cyfeiriwyd y materion a godwyd yn adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol at Heddlu Gogledd Cymru i'w hystyried.

## Mae Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig

3 Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amddifadedd a gwella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Lansiwyd y rhaglen yn 2001, ac ers hynny mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwario dros £220 miliwn arni. Mae tua 180 o ardaloedd ledled Cymru wedi'u dynodi'n ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

4 Ystad o dai tua saith milltir i'r de-orllewin o Wrecsam yw Plas Madoc ac mae tua 1,800 o bobl yn byw yno. Caiff yr ystad ei gwasanaethu gan Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc (PMCF), sy'n gwmni cyfyngedig drwy warant ac yn elusen gofrestredig. Sefydlwyd PMCF yn 2003 a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb am gyflawni rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ym Mhlas Madoc iddo gan bartneriaeth a sefydlwyd ac a arweiniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

5 Mae cyfarwyddwyr PMCF hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol at ddibenion y gyfraith elusennau ac, o dan Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni, fe'u gelwir yn 'Aelodau Cyngor Rheoli' y cwmni. O dan ofynion y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, caiff Aelodau'r Cyngor Rheoli eu hethol i wasanaethu hyd nes bod yn rhaid iddynt ymddeol o dan amodau'r drefn gylchol bob tair blynedd. Y Cydgysylltydd sy'n gyfrifol am reoli PMCF o ddydd i ddydd, a'r Swyddog Cyllid a Monitro sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol. Mae PMCF yn cyflogi 21 o aelodau o staff, ond mae hefyd yn cael cymorth gan wirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddol a di-elw.

6 Llywodraeth y Cynulliad yw prif ffynhonnell incwm PMCF, drwy ei rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae PMCF hefyd yn cael arian grant gan ffynonellau eraill, gan gynnwys y Gronfa Loteri Fawr, Waste Recycling Environmental Limited, Cyngor Celfyddydau Cymru, The Youth Charity, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Awards for All a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (ar gyfer Cylch Chwarae a Meithrinfa Little Sunflowers). Incwm blynyddol y bartneriaeth yw tua £735,000, a grantiau gwerth dros £500,000 y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'r incwm hwn.

## Mae trydydd parti wedi codi pryderon am drefniadau llywodraethu PMCF

7 Ar 31 Mai 2009, ysgrifennodd unigolyn, yr oedd PMCF wedi ei ddefnyddio i roi cymorth i drigolion Plas Madoc, at yr Archwilydd Cyffredinol yn mynegi pryderon ynghylch trefniadau rheoli PMCF a'r ffordd yr oedd yn ei thrin hi fel contractwr. Honnodd yr unigolyn bod achosion clir o gam-drin a chamgynrychioli arian yn y prosiect hwn a ariennir [gan Lywodraeth y Cynulliad]. Eglurodd hi a chydweithiwr, a oedd hefyd yn un o gyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr PMCF ar y pryd, eu bod wedi ysgrifennu at Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad yn gynharach yn 2009 gan godi amrywiaeth o bryderon, a bod yr Uned wedi'u cyfeirio yn ôl at PMCF i ddatrys y materion o bryder. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad fod hyn yn unol â'u harfer cyffredin ar gyfer ymdrin â materion o'r fath, fel cam cyntaf.

8 Ar yr un adeg, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn gorffen archwiliad ynghylch p'un a oedd Llywodraeth y Cynulliad yn rheoli rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn effeithiol er mwyn darparu gwerth am arian, a chyhoeddodd adroddiad ym mis Gorffennaf 2009.[1] Ni chanolbwyntiodd adroddiad yr ar drefniadau Llywodraeth y Cynulliad i fonitro prosesau llywodraethu a rheoli ariannol partneriaethau unigol Cymunedau yn Gyntaf, ond nodwyd rhai o'r risgiau cynhenid i waith llywodraethu a rheoli ariannol effeithiol gan bartneriaethau.

9 Ym mis Awst 2009,gofynnodd uwch-swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i'w Wasanaethau Archwilio Mewnol i gynnal arolygiad manwl o PMCF. O ystyried natur a difrifoldeb posibl yr honiadau a wnaed yn erbyn PMCF, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol (ar y pryd) y dylai Swyddfa Archwilio Cymru gefnogi arolygiad yr Archwiliad Mewnol.

## Canfu ymchwiliad y timau archwilio ddiffyg prosesau llywodraethu a rheoli ariannol sylfaenol yn PMCF

10 Arweiniwyd yr archwiliad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth gan archwilydd ariannol profiadol o Swyddfa Archwilio Cymru. Cafwyd cydweithrediad llawn gan Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhaglen yn gyffredinol, a chroesawodd yr adolygiad fel ffordd ddiduedd o ymchwilio i'r cwynion a gafwyd am drefniadau llywodraethu a gweithrediadau PMCF.

11 Cynhaliwyd archwiliad interim ym mis Medi 2009, a chyflwynwyd y canfyddiadau i uwch swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2009. Daeth yr adroddiad interim i'r casgliad y bu methiannau sylweddol a sylfaenol yn fframwaith rheoli a llywodraethu PMCF ac argymhellodd y dylai swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gymryd camau unioni ar unwaith i ddiogelu asedau PMCF a gwella'r fframwaith rheoli ariannol.

12 Yna cynhaliodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth arbenigol parhaus gan Swyddfa Archwilio Cymru, adolygiad llawnach a manylach o'r rheolaethau ariannol a'r prosesau llywodraethu cysylltiedig oedd ar waith yn PMCF. Mae adroddiad yr adolygiad hwn yn **Atodiad 1**.

---

1 *Cymunedau yn Gyntaf,* adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Gorffennaf 2009

13 Mae adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cadarnhau'r methiannau sylfaenol ym mhrosesau llywodraethu PMCF a nodwyd gan yr archwiliad interim. Roedd y methiannau hyn wedi treiddio i holl weithrediadau'r bartneriaeth sy'n awgrymu nad oedd y rhai â chyfrifoldeb am lywodraethu yn ystyried safonau cydnabyddedig bywyd cyhoeddus na'r angen i ddarparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen newid diwylliant y sefydliad yn gyfan gwbl, a hynny'n rhannol am i lawer o gynrychiolwyr PMCF, y cynhaliwyd cyfweliadau â hwy yn ystod yr archwiliad, gyfeirio'n barhaus at y 'diwylliant o haelioni' sydd wedi'i greu ar gyfer staff a'u cydnabod. Roedd yr haelioni hwn o ran arian cyhoeddus yn berthnasol i Ymddiriedolwyr a chyflogeion PMCF a'u perthnasau a'u ffrindiau.

## Cymerodd Llywodraeth y Cynulliad gamau sydyn i fynd i'r afael â gwendidau llywodraethu PMCF cyn gynted ag y cwblhawyd yr archwiliad interim

14 Cyn gynted ag y cyhoeddwyd adroddiad yr archwiliad interim ym mis Tachwedd 2009, cyfarfu swyddogion Llywodraeth y Cynulliad â Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr PMCF i rannu canfyddiadau'r ymchwiliad. Yn dilyn hynny, penderfynodd Bwrdd PMCF y dylid atal dau aelod o staff (y Cydgysylltydd a'r Swyddog Cyllid a Monitro) yn ddiymrwymiad, hyd nes y cyhoeddir canlyniadau ymchwiliadau dilynol. Cymerodd Bwrdd PMCF gamau hefyd, gan gynnwys defnyddio ymgynghorwyr annibynnol ym maes adnoddau dynol, i unioni rhai o'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad interim a hefyd i ddiogelu asedau PMCF.

15 Hefyd cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad drafodaethau brys â PMCF ac asiantaethau lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda'r nod o ddiogelu gwasanaethau allweddol i'r graddau sy'n bosibl drwy drefniadau rheoli cryfach neu newydd. Roedd y newidiadau a wnaed yn cynnwys darparu arian mewn rhandaliadau misol a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am weinyddu cyflogres PMCF i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam.

## Nid aethpwyd i'r afael â'r methiannau yn PMCF ers nifer o flynyddoedd

16 Mae'n amlwg o adroddiad y Gwasanaethau Archwilio Mewnol bod y methiannau sylfaenol o ran prosesau llywodraethu a rheoli ariannol PMCF wedi bodoli i ryw raddau ers nifer o flynyddoedd, a'i bod yn debygol iawn eu bod wedi bodoli ers ffurfio'r bartneriaeth yn 2003. Dros gyfnod o chwe blynedd, ni lwyddodd trefniadau monitro Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â diffygion difrifol yn PMCF. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd y gallai diffygion tebyg fod wedi digwydd mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill, ac amlinellir gwaith ychwanegol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r risg hon ym mharagraff 36 o'r adroddiad hwn.

17 Mae a wnelo gweddill yr adroddiad hwn â materion llywodraethu ehangach, gan gynnwys effeithiolrwydd y trefniadau monitro a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i ddiogelu arian cyhoeddus a roddir i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau nad yw'r diffygion a welwyd yn PMCF yn digwydd eto.

### Dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi monitro trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn fwy effeithiol

**18** Cyn 2007, roedd trefniadau monitro partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn seiliedig ar adroddiadau chwarterol a oedd yn gysylltiedig â thaliadau ac adroddiadau cynnydd chwe misol y bwriadwyd iddynt roi trosolwg ehangach o gynnydd.  Roedd yr adroddiadau chwe misol yn cwmpasu'r canlynol:

- **a** y Weledigaeth Gymunedol;
- **b** y Bartneriaeth;
- **c** cyflawniadau allweddol ar gyfer y flwyddyn;
- **ch** rhwystrau i gynnydd;
- **d** cymorth a gafwyd;
- **dd** plygu rhaglenni (sicrhau bod arian a chefnogaeth o raglenni a sefydliadau cyhoeddus amrywiol yn cael eu cyfeirio i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf).

**19** Roedd yr adroddiadau chwarterol yn edrych ar gynnydd yn erbyn targedau, gan gyfeirio'n uniongyrchol at y ffordd y dyrannwyd arian (fel gwaith aelodau unigol o staff a chynnydd prosiectau penodol).  Gwnaed yr holl daliadau i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn chwarterol, ar yr amod y derbyniwyd adroddiad cynnydd boddhaol.

**20** Newidiwyd y trefniadau monitro yn 2007, a bellach ceir dwy elfen allweddol:

- **a** Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir gan bob partneriaeth erbyn 1 Mai, sy'n arwain at Ymweliad Monitro Blynyddol gan Dîm Gweithredu Rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad;
- **b** gwaith monitro chwarterol mewn perthynas â'r broses dalu.

**21** Hefyd, os cyflwynir sylwadau i Lywodraeth y Cynulliad ar faterion ariannol a llywodraethu, cyfeirir y rhain at dîm gweithredu rhanbarthol perthnasol Cymunedau yn Gyntaf. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym fod hyn wedi digwydd sawl gwaith ac y cafodd y materion eu datrys yn lleol fel arfer.

**22** Fel elusen gofrestredig ag incwm blynyddol o fwy na £500,000, mae'n ofynnol i PMCF drefnu bod ei gyfrifon yn cael archwiliad allanol blynyddol. Defnyddiodd PMCF gwmni lleol o gyfrifwyr ac archwilwyr i gyflawni'r gwaith hwn. Hefyd, yr archwilwyr allanol, ar gais Swyddog Cyllid PMCF, oedd yn gyfrifol am gynnal cofrestr asedau sefydlog y bartneriaeth. Deallwn fod yr archwilydd allanol wedi nodi rhai gwendidau rheoli mewnol o ran rheolaeth ariannol PMCF a'i fod wedi amlinellu'r pryderon hyn yn ei Lythyr Archwilio Blynyddol i'r cwmni. Ni fu'n ofynnol i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf anfon adroddiadau neu lythyrau archwilio allanol ymlaen i Lywodraeth y Cynulliad, ond mae'r opsiwn hwn bellach yn cael ei ystyried fel rhan o adolygiad llywodraethu ehangach Llywodraeth y Cynulliad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

23 Mae gan yr archwilydd allanol gydberthynas ffurfiol â Bwrdd Ymddiriedolwyr PMCF (y rhai sydd wedi'u dynodi'n 'gyfrifol am lywodraethu'), ond yn ymarferol dim ond Swyddog Cyllid PMCF y mae gan yr archwilydd gydberthynas ag ef. Fodd bynnag, nid oedd y Swyddog Cyllid yn trosglwyddo adroddiadau'r archwilwyr i'r Ymddiriedolwyr ac ni wnaeth yr archwilwyr fwy o ymdrech i roi gwybod i'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu am eu canfyddiadau. At hynny, ni ofynnodd yr Ymddiriedolwyr eu hunain am adroddiadau ariannol priodol gan eu Swyddog Cyllid nac unrhyw sicrwydd yn uniongyrchol gan eu harchwilydd allanol.

24 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dibynnu'n fawr ar waith ardystio grantiau gan gyfrifwyr adrodd (yr archwilwyr allanol yw'r rhain fel arfer), drwy eu profion o sampl o drafodion, er mwyn cadarnhau bod arian wedi'i wario ar eitemau sy'n gymwys i gael cyllid Cymunedau yn Gyntaf. Mewn rhai achosion, defnyddir cyfran sylweddol o'r arian grant i dalu cyflogau cyflogeion. Felly mae rhai cyfrifwyr adrodd yn y sector preifat (fel yn achos PMCF) wedi dewis cyfyngu eu profion ardystio grantiau i gyflogau a fawr ddim byd arall.  O ganlyniad, ni chafodd Llywodraeth y Cynulliad unrhyw wybodaeth drwy'r broses ardystio grantiau am unrhyw bryderon difrifol ynghylch diffygion mewn prosesau ariannol yn PMCF, a hynny yn sgil y pwyslais a roddwyd ar gostau cyflogau yn ystod y broses sicrwydd.

25 Mae'n amlwg nad oedd trefniadau monitro arferol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn effeithiol o ran canfod diffygion mewn prosesau llywodraethu a rheoli ariannol yn PMCF. Hefyd, nid oedd y trefniadau archwilio allanol na'r trefniadau ardystio grantiau ar gyfer PMCF yn ddigon cadarn, a hynny o ran eu cylch gwaith a'r gofynion adrodd, i roi lefel briodol o sicrwydd i Lywodraeth y Cynulliad bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gywir a bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Mae adroddiad Llywodraeth y Cynulliad ar drefniadau llywodraethu ehangach partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn cynnwys argymhelliad sy'n nodi y 'dylid cryfhau'r Cyfarwyddiadau Ardystio Archwiliadau i sicrhau bod gwariant yn ychwanegol at gostau cyflog yn cael ei gynnwys lle y bo'n bosibl mewn profion archwilio i sicrhau mai dim ond costau cymwys yr eir iddynt'. Fodd bynnag, mae cryn le i wella sicrwydd o ran gwaith archwilio allanol ac ardystio grantiau mewn meysydd eraill, er enghraifft meysydd fel aelodaeth ac annibyniaeth y Bwrdd, safonau moesegol a pholisïau a gweithdrefnau caffael priodol.

### Dylai Llywodraeth y Cynulliad fod wedi ymateb yn fwy effeithiol i bryderon am PMCF y cyflwynwyd iddo gan drydydd partïon

26 Sefydlwyd PMCF fel sefydliad annibynnol yn 2003, ac yn 2006 penderfynodd y bartneriaeth ddirwyn ei dibyniaeth ar y prosesau llywodraethu a ddarparwyd yn flaenorol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ben. Ers 2006, gyda statws Derbynnydd Grant, ariannwyd PMCF yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad.

27 Roedd llawer o'r gwendidau a nodwyd yn adroddiad Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad yn **Atodiad 1** wedi'u hamlygu gan archwilwyr mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ystod ymweliad â PMCF ym mis Ebrill 2003, pan mai'r Cyngor oedd Derbynnydd y Grant ac felly'n gyfrifol am oruchwylio'r bartneriaeth.  Fodd bynnag, priodolodd archwilwyr mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y rhan fwyaf o'r methiannau a nodwyd mewn adroddiad ym mis Mai 2003 i weinyddwr a oedd eisoes wedi gadael y bartneriaeth, a Thrysorydd a oedd wedi ymddiswyddo yn ystod yr archwiliad. Daeth adroddiad Archwilwyr Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r casgliad bod 'angen rhoi sylw i'r hanfodion nawr bod

Cydgysylltydd a Gweinyddwr newydd wedi'u penodi, er mwyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gywir, bod taliadau yn briodol ac wedi'u hawdurdodi'n gywir a bod offer yn cael eu nodi a'u cofnodi'n effeithiol ar stocrestr addas'.

**28** Darparodd PMCF ymateb i adroddiad Archwilwyr Mewnol 2003, a geisiodd fodloni archwilwyr mewnol y Cyngor bod camau unioni priodol wedi'u cymryd. Anfonwyd adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ac ymateb PMCF ymlaen at Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad dystiolaeth bod archwilwyr mewnol y Cyngor wedi gwneud unrhyw waith dilynol mewn perthynas â hyn.

**29** Er y cafwyd rhywfaint o ohebiaeth gan y Cydgysylltydd newydd ac Ysgrifennydd y Cwmni yn egluro rhai materion mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, ni chymerodd Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad unrhyw gamau i ymateb i'r pryderon a godwyd yn adroddiad Archwilwyr Mewnol y Cyngor. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym fod newidiadau sefydliadol a phersonél sylweddol wedi digwydd yn 2004 yn y tîm Cymunedau yn Gyntaf a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen yng Ngogledd Cymru. Ym mis Ionawr 2005, ysgrifennodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Derbynnydd y Grant o hyd ar y pryd) at Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad unwaith eto, gan fynegi amrywiaeth o bryderon am drefniadau ariannol, gweithdrefnau recriwtio, strwythur y Bwrdd, atebolrwydd cymunedol, llywodraethu a materion yn ymwneud ag yswiriant. Soniwyd efallai y gallai Archwilwyr Mewnol y Cyngor gynnal adolygiad arall, ond ni ddigwyddodd hyn.

**30** Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym y cynhaliwyd trafodaethau helaeth rhwng ei Huned Cymunedau yn Gyntaf a chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2006, ynghylch rhoi statws Derbynnydd y Grant i PMCF ei hun o 1 Ebrill 2006. Ym mis Chwefror 2006, roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn am ystod o wybodaeth gan PMCF, cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â statws Derbynnydd y Grant i'r cwmni. Fodd bynnag, nid yw cofnodion Llywodraeth y Cynulliad yn dangos yn glir faint o wybodaeth a ddarparodd PMCF mewn gwirionedd ac i ba raddau roedd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi craffu arni.

**31** Roedd y pryderon a godwyd gan y trydydd parti yn ymwneud yn rhannol ag anghydfod o ran cyflogaeth â PMCF. Fodd bynnag, codwyd pryderon ar wahân hefyd gan un o ymddiriedolwyr y Bartneriaeth a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam. Roedd a wnelo'r rhain â phroblemau llywodraethu ehangach yn PMCF, gan gynnwys honiadau ynghylch ymddygiad y Cydgysylltydd ac uwch reolwyr eraill.

**32** Mae'n naturiol nad oedd swyddogion Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad am gael eu cynnwys mewn anghydfod cyflogaeth o fewn y bartneriaeth, ac mae'n amlwg bod eu camau gweithredu yn cyd-fynd â'r arfer sefydledig ar y pryd ar draws rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i gyd. Mae hefyd yn amlwg bod Pennaeth yr Uned Cymunedau yn Gyntaf wedi pwysleisio i Gadeirydd PMCF ei bod yn bwysig i'r bartneriaeth ei bod yn gallu datrys heriau o'r fath yn lleol. Dywedodd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wrthym nad oedd yr achwynwyr, ar y dechrau, wedi dilyn y cyngor a roddwyd iddynt ar sut i fwrw ymlaen â’u pryderon am ymddygiad a threfniadau llywodraethu’r bartneriaeth, a bod hyn wedi golygu mwy o oedi ar ran Llywodraeth y Cynulliad wrth ystyried eu pryderon. Gan nad oes polisi cwyno wedi’i gyhoeddi, mae perygl na chaiff cwynion o’r fath eu datrys yn foddhaol.

33 Aeth y trydydd parti at yr Archwilydd Cyffredinol â phryderon am y bartneriaeth, a hefyd bryderon am drefniadau llywodraethu ehangach rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir gan Lywodraeth y Cynulliad. Agwedd allweddol ar unrhyw system llywodraethu ac atebolrwydd yw trefniadau sy'n ei gwneud yn bosibl i ymchwilio i gwynion a honiadau (gan gynnwys rhai gan staff), os oes angen, yn annibynnol ar y sefydliad y maent yn ymwneud ag ef. Ni sefydlwyd trefniadau o'r fath yn effeithiol gan Uned Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad.

## Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd camau i leihau'r risg y bydd y problemau difrifol yn PMCF yn cael eu hailadrodd ac y byddant yn parhau heb eu canfod mewn partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill

34 Mewn ymateb i'r adroddiad interim gan yr archwilwyr mewnol, comisiynodd Cyfarwyddwr yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Adolygiad Llywodraethu ehangach ffurfiol o raglen Cymunedau yn Gyntaf. Cynhaliwyd yr adolygiad gan swyddogion yn yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol ac fe'i goruchwyliwyd gan Grŵp Adolygu sydd wedi cyfarfod deirgwaith, y tro diwethaf ym mis Chwefror 2010. Hefyd, mewn ymateb i'r adroddiad terfynol gan yr archwilwyr mewnol, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad dros Gyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol at ei gymheiriaid ymhob un o adrannau Llywodraeth y Cynulliad, gan dynnu sylw at y materion allweddol a godwyd yn yr adroddiad a gofyn am adolygiad brys o unrhyw oblygiadau ar gyfer y cyfarwyddiaethau priodol.

35 Cyflwynwyd adroddiad yr Adolygiad Llywodraethu i gyfarwyddwyr yn Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad ym mis Ionawr 2010. Mae'r adroddiad yn cynnwys 22 o argymhellion i gryfhau fframwaith llywodraethu cyffredinol rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, ac fe'i ategir gan ganlyniadau ymarfer mapio sy'n crynhoi'r llwybrau ariannu a'r trefniadau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglen.

36 Mewn ymateb i'r adolygiad llywodraethu, mae'r Uned Cymunedau yn Gyntaf wedi paratoi ymateb gan y rheolwyr a chynllun gweithredu. Mae'r cynllun yn nodi'r camau sydd i'w cymryd fel rhan o ail gam arfaethedig yr adolygiad llywodraethu yn ddiweddarach eleni. Bydd y rhain yn cynnwys ymchwiliadau manwl gan Lywodraeth y Cynulliad i bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf eraill sy'n peri 'risg uchel', ar ôl i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gwblhau ei waith ym Mhlas Madoc.

37 Bydd y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2007 yn cael eu diweddaru hefyd mewn ymateb i'r adolygiad llywodraethu. Mae camau cynnar y gwaith hwn gan Dîm Polisi Cymunedau yn Gyntaf, yn canolbwyntio ar elfennau pwysicaf y canllawiau hyn, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arian a llywodraethu.

38 Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym ei bod yn bwriadu meincnodi'r safonau y mae disgwyl i randdeiliaid y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf eu bodloni yn erbyn y 'Saith Egwyddor mewn Bywyd Cyhoeddus' a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ('egwyddorion Nolan') yn 1995. Ystyrir goblygiadau ymarferol hyn ymhellach, er enghraifft mewn perthynas ag adolygu canllawiau'r rhaglen ac adolygu rolau o fewn yr Uned Cymunedau yn Gyntaf. Elfen bwysig arall fydd darparu rhagor o hyfforddiant i bartneriaethau Cymunedau yn

Gyntaf a staff ar faterion llywodraethu ac egwyddorion Nolan yn benodol. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau, drwy Wasanaeth Hyfforddi Cymunedau yn Gyntaf a ddarperir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

39 Yn ogystal ag ymchwiliadau arfaethedig Llywodraeth y Cynulliad i bartneriaethau uchel eu risg, deallwn y bydd rhaglen dreigl o archwiliadau diwydrwydd dyladwy yn cael ei rhoi ar waith ar draws y rhaglen. Cynhelir archwiliadau o'r fath eisoes mewn perthynas â sefydliadau sy'n gwneud cais am statws Derbynnydd y Grant ar gyfer rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ond caiff y rhain eu hategu gan archwiliadau ôl-weithredol ar gyfer partneriaethau presennol sydd â statws Derbynnydd y Grant. Yn y lle cyntaf, anfonwyd holiadur llywodraethu at bob Derbynnydd y Grant i'w lenwi ar gyfer pob partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae disgwyl i'r rhain gael eu dychwelyd i'r Uned Cymunedau yn Gyntaf erbyn 17 Mawrth 2010.

40 Hyd yma mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi dibynnu'n helaeth ar ganlyniadau profion ardystio grantiau gan gyfrifwyr adrodd annibynnol. Rhaid cynnal y profion hyn bob blwyddyn mewn perthynas â phob partneriaeth, a chyflwynir tystysgrifau i Lywodraeth y Cynulliad gyda hawliadau blynyddol am arian prosiect. Caiff y rhan fwyaf o grantiau eu hardystio gan Swyddfa Archwilio Cymru, a chaiff y gweddill (gan gynnwys rhai PMCF) eu hardystio gan gwmnïau cyfrifwyr yn y sector preifat. Cynhelir yr holl brofion grantiau yn unol â Chyfarwyddiadau Ardystio, a gyhoeddir gan Swyddfa Archwilio Cymru i'w harchwilwyr ac a gyhoeddir ar wahân gan Lywodraeth y Cynulliad i gwmnïau yn y sector preifat. Caiff cynnwys y cyfarwyddiadau hyn eu hadolygu'n flynyddol ar ffurf drafft gan swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth y Cynulliad ar y cyd, ac mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer cwmnïau yn y sector preifat wedi'u seilio'n agos ar y rhai y cytunwyd â Swyddfa Archwilio Cymru. Yng ngoleuni profiad PMCF, caiff cyfarwyddiadau ardystio grantiau Llywodraeth y Cynulliad eu hadolygu ymhellach, gan roi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd cael adroddiadau ar adolygiadau cyfrifwyr adrodd o gostau heblaw costau staffio a systemau rheoli.

41 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn bwriadu adolygu rolau staff Uned Cymunedau yn Gyntaf mewn perthynas â hyrwyddo arferion llywodraethu da, gan gyfeirio at egwyddorion Nolan. Mae hefyd yn rhagweld y bydd angen diwygio strwythur cyffredinol yr Uned i ystyried unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r adolygiad, a bydd angen ystyried sicrhau bod rhaniad cliriach rhwng y swyddogion sy'n gyfrifol am reoli a monitro'r rhaglen o ddydd i ddydd a'r rhai sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff safonau atebolrwydd cyson eu cynnal. Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ystyried yr angen am hyfforddiant ychwanegol.

# Atodiad 1 – Adroddiad Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth y Cynulliad

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Bydd fersiwn Cymraeg o'r adroddiad hwn ar gael yn fuan, yn y cyfamser, os hoffech weld yr adroddiad, gweler y fersiwn Saesneg.**